

# Taflen Ffeithiau

Beth sy'n digwydd pan fyddaf  
yn gofyn am Lety Argyfwng?



# Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn gofyn am Lety Argyfwng?

Bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn ceisio'ch rhwystro rhag dod yn ddigartref lle bynnag mae'n bosib; drwy asesu pam eich bod yn ddigartref, pa ddatrysiad hoffech chi ddod iddo a pha gamau rhesymol y gallwch eu cymryd er mwyn datrys eich problem o ran tai.

Os bydd angen llety argyfwng arnoch, mae'n rhaid i Datrysiadau Tai ddilyn camau cyfreithiol gan y llywodraeth er mwyn asesu os oes dyletswydd gyfreithiol arnynt i ddarparu llety dros dro ichi.

Rhaid i'r Cyngor fodloni 3 allan o 5 o'r profion a osodir mewn deddfwriaeth Llywodraethol cyn y gellir ystyried llety dros dro. Mae'r manylion hynny wedi eu cynnwys yn y llyfryn hwn.

## 1. Ydych chi'n gymwys am gymorth?

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gymwys. Fodd bynnag, os ydych yn cwrdd ag un o'r meini prawf canlynol yna mae'n debyg nad ydych yn gymwys am gymorth:

- Rydych yn Geisiwr Lloches
- Hawliau cyfyngedig sydd gennych i aros yn y DU
- Rydych o dramor ac ni allwch hawlio o 'gronfeydd cyhoeddus'
- Nid ydych yn preswyllo fel arfer yn y DU

Os bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn eich cyngori nad ydych yn gymwys am gymorth ni fyddwch yn gymwys am gymorth pellach, er y byddwch yn derbyn cyngor ynghylch pa asiantaethau eraill a allai fod o gymorth ichi.

## 2. A ydych chi'n ddigartref?

Mae diffiniad bod yn 'ddigartref' yn golygu mwy na bod allan ar y stryd. Mae'n bosib eich bod yn ddigartref os;

- Nad oes gennych unrhyw le i fyw yn y DU nac yn unrhyw le arall yn y byd.
- Ni allwch fyw gartref oherwydd bygythiadau neu gam-drin gwirioneddol sy'n debygol o ddigwydd yn eich erbyn chi neu yn erbyn rhywun yn eich cartref.
- Nid oes gennych unrhyw le i fynd gyda'ch teulu i gyd.
- Nid oes gennych ganiatâd y perchennog neu'r tenant i aros.
- Rydych wedi cael eich cloi allan o'ch tŷ a chewch chi ddim mynd yn ôl.
- Cwch, cartref symudol neu garafán yw'ch cartref ac nid oes gennych chi unrhywle i'w osod.
- Dim ond ar sail dros dro bregus iawn gallwch chi aros lle'r ydych chi
- Nid yw'n rhesymol ichi aros yn eich cartref am unrhyw reswm e.e. mae'ch cartref mewn cyflwr gwael.
- Ni allwch fforddio aros lle rydych chi

Mae'n bosib y byddwch hefyd yn cael eich ystyried yn ddigartref os ydych chi'n byw yn rhywle ond yn gorfod gadael o fewn 56 diwrnod. Gallai hyn fod o ganlyniad i orchymyn Lles neu gael eich holi i symud allan gan berthnasau neu ffrindiau.

Mae'n bosib yr ystyrir pobl sy'n gadael yr ysbyty neu sefydliad arall yn ddigartref os nad oes ganddynt unrhyw le arall i fynd.

Os bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn eich cyngori nad ydych chi yn ddigartref, cewch gyngor ar eich opsiynau yn ogystal â gwybodaeth am asiantaethau eraill a all fod o gymorth ichi.



### 3. Ydych chi ag angen blaenoriaethol?

Os ydych chi'n gymwys am gymwys a digartrefedd (neu mewn peryg o fod yn ddigartref) bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn gwirio i weld os oes gennych chi angen blaenoriaethol. Isod mae disgrifiadau bras o'r cartrefi hynny a ystyrir fod ganddynt angen blaenoriaethol.

- Os oes gennych blant dibynnol yn byw yn eich cartref, neu os oes gennych blant dibynnol sydd eisiau byw gyda chi.
- Ydych chi neu aelod o'ch cartref yn feichiog
- Os ydych chi'n 16 neu 17 oed
- Os ydych newydd adael y Lluoedd Arfog
- Os ydych newydd adael Carchar ac yn fregus o ganlyniad i fod wedi eich canfod
- Os ydych yn dioddef cam-drin
- Os ydych chi yn berson hŷn, neu'n byw mewn cartref gyda pherson hŷn
- Os ydych yn fregus oherwydd iechyd gwael neu os oes gennych anabledd corfforol, dysgu, meddyliol, neu unrhyw reswm arall.
- Os ydych yn gadael Gofal a'ch bod rhwng 18-21 oed
- Os ydych yn ddigartref o ganlyniad i argyfwng megis tân neu lifogydd

Mae'n bosib y byddai cartrefi sy'n ffitio'r categorïau uchod yn cael eu hystyried yn rhai ag angen blaenoriaethol. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 Rhan 2 yn dweud wrth y swyddog Datrysiadau Tai beth yw angen blaenoriaethol.

Os bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn eich cyngori nad oes gennych chi angen blaenoriaethol, ni fydd dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu llety argyfwng ichi. Bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn eich cynorthwyo ac yn rhoi cyngor ichi ar sut i ddiogelu llety fforddiadwy amgen.

Os byddwch yn cwrdd â gofynion 1, 2 a 3 bydd gan Gyngor Conwy ddyletswydd i ddarparu llety dros dro i chi. Gelwir hyn yn Lety Dros Dro, a ddefnyddir am gyfnod byr o amser yn unig.

Os na all y Swyddog Datrysiadau Tai benderfynu os ydych ag angen blaenoriaethol, byddant yn trefnu llety ichi tra byddant yn ymchwilio ymhellach i'ch sefyllfa.

## Llety Dros Dro

### Beth yw Llety Dros Dro?

Bydd eich math chi o Lety Dros Dro yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol.

- Hostel
- Llochesau
- Chalets
- Gwely a Brechwast
- Ar brydiau, tai neu fflatiau gweigion.

Fel arfer cewch gynnig un llety dros dro. Os byddwch yn gwrthod hwn mae'n debyg na chewch gynnig arall. Peidiwch â gwrthod cynnig cyn gofyn am gyngor yn gyntaf. Os ydych chi'n credu bod y cynnig yn anaddas yna dylech egluro pam wrth y Swyddog Datrysiadau Tai.

Tra byddwch yn byw mewn llety dros dro bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn ymchwilio i'ch sefyllfa, tra bydd yn eich cynorthwyo i ddarganfod eich llety eich hun. Os na fyddwch ag angen blaenoriaethol byddwn yn holi ichi adael y llety.



## 4. Ydych chi'n ddigartref yn fwriadol?

Bydd y Swyddog Datrysiadau Tai hefyd yn edrych pam eich bod yn ddigartref.

Os byddwch yn ddigartref yn fwriadol ac ag angen blaenoriaethol, bydd gan y Gwasanaethau Tai ddyletswydd i ddarparu llety i chi ar sail dros dro. Mae hyn fel y cewch gyfnod rhesymol o amser i ddarganfod rhywle arall i fyw. Bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn egluro beth yw'ch opsiynau.

Os byddant yn dod i'r canlyniad eich bod yn fwriadol ddigartref efallai yr hoffech gael cyngor gan asiantaeth annibynnol.

## 5. Oes gennych chi gysylltiad lleol?

Rhaid i'r Swyddog Datrysiadau Tai fod yn fodlon bod gennych gysylltiad lleol er mwyn derbyn y dyletswydd llawn terfynol; er mwyn darparu llety dros dro i chi am gyfnod diderfyn, hyd nes y byddwch wedi cael cynnig llety addas a fydd ar gael ichi am o leiaf 6 mis.

Mae gennych gysylltiad lleol os ydych chi (neu os ydy rhywun yn eich cartref )

- Yn byw neu wedi byw yn ardal Conwy am 6 mis yn y flwyddyn ddiwethaf, neu 3 allan o'r 5 mlynedd diwethaf.
- Os oes gennych swydd yn yr ardal.
- Os oes gennych berthynas agos (Mam, Tad, chwaer, brawd neu blentyn sy'n oedolyn) sydd wedi byw yn yr ardal am 5 mlynedd.
- Os ydych chi angen byw yn yr ardal ar ryw reswm arbennig.

Os bydd y Swyddog Datrysiadau Tai yn eich cynghori nad oes gennych gysylltiad lleol, efallai bydd y dyletswydd ar gyfer darganfod llety i chi yn gorwedd gydag awdurdod arall ac efallai cewch eich atgyfeirio i'r Awdurdod hwnnw ar gyfer llety argyfwng.

## Gwybodaeth Arall

### Llythyrau Penderfynu

Os ydych mewn llety dros dro wedi ei ddarparu gan y Tîm Datrysiadau Tai, cewch benderfyniad ysgrifenedig am ba ddyletswydd sydd gan yr Awdurdod Lleol drosodch. Bydd y llythyr hwn yn egluro beth yw'r penderfyniad a pham y gwnaethpwyd y penderfyniad hwnnw.

Bydd hefyd yn eich cynghori o'ch hawl i apelio os byddwch yn anghytuno gyda'r penderfyniad.

Os ydych yn credu eich bod wedi cael eich trin yn annheg, bydd y llythyr yn eich hysbysu o'r Broses Gwynion.

### Llety Parhaol

Os yw'r Swyddog Datrysiadau Tai yn derbyn bod ganddynt ddyletswydd llwyr i'ch ailgartrefu, byddwch yn aros yn eich llety dros dro gan aros am gynnig llety fydd ar gael ichi am o leiaf 6 mis. Rhaid i'r llety hwn fod yn addas i chi ac i'ch teulu.

Os nad ydych chi'n hoffi'r llety a gynigir ichi, dylech ganfod cyngor cyfreithiol cyn i chi ei wrthod.

Fel arfer un cynnig o lety addas yn unig a gewch. Gall gwrthod y cynnig hwn hefyd olygu eich bod yn gorfod gadael eich llety dros dro.

**Bwriad y daflen hon yw rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi os ydych chi'n ddigartref, am beth sy'n digwydd pan fyddwch chi angen llety dros dro.**

**Yn ystod eich asesiad ac wrth weithio gyda'ch Swyddog Datrysiadau Tai, cewch fwy o fanylion am bob agwedd o ganfod llety.**



